GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus

## Chwefror 2026 Canfyddiadau Arolwg:

Cartrefi oer; trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol; ysmygu ail-law; tlodi plant.

Cyhoeddwyd: Mehefin 2026

# Cefndir



- Mae **Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus** yn banel cenedlaethol o drigolion Cymru sy’n 16+ oed a sefydlwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i alluogi ymgysylltiad rheolaidd â’r cyhoedd i lywio polisïau ac ymarfer iechyd y cyhoedd.
- Cynlluniwyd y panel i gynrychioli poblogaeth Cymru yn gyffredinol yn ôl oedran, rhyw, amddifadedd, ethnigrwydd a bwrdd iechyd.
- Mae aelodau'r cyhoedd yn cael eu recriwtio i'r panel gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ac yna'n cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolygon rheolaidd i roi cipolwg ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol.
- Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o arolwg Chwefror 2026 sy’n cwmpasu:
    - **Cartrefi oer**
    - **Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol**
    - **Ysmygu ail-law**
    - **Tlodi plant**
- Rydym yn ddiolchgar iawn i drigolion Cymru sydd yn rhoi o’u hamser gwerthfawr i gymryd rhan yn y panel.



# Trosolwg methodolegol

- Ymgymerwyd â recriwtio cychwynnol i banel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus (Tachwedd 2022 at Ionawr 2023) dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae recriwtio yn broses barhaus a gall unigolion gofrestru drwy wefan **Panel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus** (yn agor mewn ffenestr newydd) ar unrhyw adeg. Yn seiliedig ar sgrinio demograffig cychwynnol, caiff unigolion naill ai eu recriwtio'n uniongyrchol i'r panel neu eu gwahodd i ymuno â rhestr aros os yw'r cwota ar gyfer eu proffil demograffig yn llawn.
- Wrth gyflwyno pob arolwg, bydd recriwtio ychwanegol wedi'i dargedu yn digwydd drwy gyfweliadau wyneb yn wyneb ar y cyfryngau cymdeithasol i gynyddu cynrychioldeb sampl yn ôl yr angen.
- O fis Ebrill 2025, gwahoddir aelodau'r panel i gwblhau arolwg bob pedwar mis, naill ai ar-lein neu dros y ffôn.
- Casglwyd y data ar gyfer yr arolwg hwn 4 Chwefror hyd at 28 Chwefror 2026.
- Ni chynhigir unrhyw gymhellion ariannol ar gyfer cyfranogiad.
- Oherwydd bod y panel wedi'i ddewis yn rhannol ei hun ac yn canolbwyntio ar bynciau iechyd y cyhoedd, gallai'r sampl gael ei effeithio gan duedd tuag at drigolion sydd â mwy o ddiddordeb mewn pynciau iechyd cyhoeddus a materion gofal iechyd. Dylid ystyried hyn wrth ddehongli'r canfyddiadau.
- Ceir rhagor o wybodaeth am ddulliau'r arolwg yn yr Atodiad.

- Ceir dadansoddiad demograffig o aelodau'r panel a gafodd eu gwahodd i gwblhau'r arolwg a'r 1,656 gymerodd ran, ac a gwblhaodd yr arolwg ym mis Chwefror 2026 yn yr Atodiad.
- Oni nodir yn wahanol, mae data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu demograffeg y boblogaeth genedlaethol yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd.
- Sylwer: efallai na fydd y canrannau yn yr adroddiad hwn yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu.

- Cymerodd 1,656 o bobl ran yn arolwg mis Chwefror 2026 (4 Chwefror hyd at 28 Chwefror 2026).

## Tlodi plant

- Pan ofynnwyd iddynt pa un o ddau ddull fyddai'n fwy effeithiol o ran lleihau tlodi plant, dewisodd 49% 'darparu mwy o arian i wasanaethau i'w gwneud yn fwy fforddiadwy i deuluoedd' a dewisodd 36% 'darparu mwy o arian i deuluoedd i gynyddu incwm eu cartref'; nid oedd 11% yn gwybod.
- Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cydnabod y gall byw mewn tlodi fod yn niweidiol o ran gallu plentyn i wneud y canlynol:
  - Bwyta bwyd iach (95%),
  - Byw mewn cartref cynnes a diogel (94%),
  - Bod ag iechyd corfforol da (95%),
  - Bod ag iechyd meddwl da (94%).
- O restr o saith cam gweithredu i leihau tlodi plant, y pedwar uchaf yr ystyriwyd eu bod yn effeithiol iawn oedd:
  - Gwella fforddiadwyedd ac ansawdd tai (75%),
  - Gwella mynediad at swyddi diogel (73%),
  - Y llywodraeth yn helpu i leihau costau ynni (70%),
  - Gwneud gofal plant yn fwy fforddiadwy a hygyrch (70%).

## Ysmygu ail-law

- Mae 87% o bobl yn credu ei bod yn bwysig iawn i lywodraeth yng Nghymru gymryd camau i gyfyngu ar gysylltiad â mwg ail-law ymysg babanod a phlant; mae 61% yn credu hyn yn achos oedolion nad ydynt yn ysmygu.
- Roedd y rhan fwyaf o bobl yn gwybod y gallai babanod a phlant sy'n anadlu mwg ail-law fod mewn perygl o gael heintiau'r frest (87%) a phyliau o asthma (86%). Roedd llai yn gwybod am y risgiau ynghylch pwysau geni isel (62%), Syndrom Marwolaeth Sydyn Babanod (SIDS)/marwolaeth yn y crud (52%), a heintiau clust (24%).
- Dim ond 54% a 40% oedd yn gwybod y gallai oedolion sy'n mewnanadlu mwg ail-law fod mewn perygl o gael strôc a chamesgor, yn y drefn honno.

## Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol

- Roedd 36% o'r bobl yn gwybod am Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, ac mae 95% yn cefnogi'r Ddeddf.
- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn credu bod gan yr heddlu (62%), lleoliadau addysgol (57%), a'r cyfryngau a phlatfformau cymdeithasol (55%) rôl fawr o ran atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol.
- Roedd 26% yn cytuno â'r datganiad bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol yn broblem ddifrifol lle maen nhw'n byw.

## Cartrefi oer

- Dros y tri mis diwethaf, dywedodd 34% o bobl eu bod yn ei chael hi'n anodd fforddio gwresogi eu cartref; o'r rheiny, dywedodd 71% mai cost ynni oedd y prif reswm dros yr anhawster.
- Dros y tri mis diwethaf, oherwydd cost gwresogi eu cartref, dywedodd 57% o bobl eu bod wedi mynd heb wres pan oeddent yn teimlo'n oer o leiaf weithiau, a dywedodd 44% eu bod wedi torri'n ôl ar gostau bwyd.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Cartrefi oer

Roedd yr adran hon yn ceisio deall canfyddiadau pobl ynghylch sut y gallai byw mewn cartref oer effeithio ar eu hiechyd a'u profiad o gadw'n gynnes gartref, yn ogystal ag effaith costau gwresogi yn ystod gaeaf 2025-2026.

# Cartrefi oer


## I ba raddau, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y gall byw mewn cartref oer gyfrannu at ...?

| | Dim o gwbl | Ychydig | Yn fawr |
|---|---|---|---|
| Hypothermia (cyflwr sy'n peryglu bywyd ac sy'n cael ei achosi wrth i'ch corff golli gwres yn gynt nag y gall ei gynhyrchu) | 4% | 14% | 81% |
| Problemau anadlu (e.e. asthma, anwydydd) | 3% | 16% | 80% |
| Iechyd corfforol gwael | 3% | 20% | 77% |
| Iechyd meddwl gwael | 4% | 21% | 75% |
| Unigrwydd neu ynysigrwydd cymdeithasol | 10% | 35% | 54% |
| Straen ar y galon (e.e. pwysedd gwaed) | 7% | 38% | 53% |
| Cwympiadau | 13% | 41% | 44% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: Yn llai na 2%

# Cartrefi oer

**Yn ystod y tri mis diwethaf, pa mor rhwydd neu anodd y mae wedi bod i'ch aelwyd fforddio gwresogi eich cartref?**





Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Cartrefi oer

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn ystyried bod fforddio gwresogi eu cartref yn eithaf anodd neu'n anodd iawn (n = 544; heb ei bwysoli)

**Beth yw'r prif reswm pam mae eich aelwyd wedi ei chael hi'n anodd fforddio gwresogi eich cartref?**




Roedd y themâu a nodwyd yn yr ymateb 'arall' yn cynnwys anabledd, costau byw ac ymddeoliad

Gwell gennyf beidio â dweud: Yn llai na 1%

# Cartrefi oer

## Yn ystod y tri mis diwethaf, pa mor aml, os o gwbl, ydych chi wedi gwneud unrhyw rai o'r canlynol oherwydd cost gwresogi eich cartref?

| | Byth | Weithiau | Bob amser |
|---|---|---|---|
| Mynd heb wres pan oeddech yn teimlo'n oer | 43% | 52% | 5% |
| Cwtogi ar faint yr ydych yn ei wario ar fwyd | 55% | 37% | 7% |
| Peidio â gwahodd pobl i'ch cartref | 72% | 19% | 6% |
| Peidio â defnyddio dŵr poeth i olchi (e.e. eich dwylo neu eich corff) | 72% | 24% | 3% |
| Cwtogi ar faint o fwyd cynnes yr ydych wedi'i fwyta | 81% | 17% | 2% |
| Cwtogi ar wneud diodydd poeth | 83% | 15% | 2% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad : Yn hafal i neu'n llai na 3%

# Cartrefi oer


**Yn ystod y tri mis diwethaf, pa mor aml, os o gwbl, ydych chi wedi gwneud unrhyw rai o'r canlynol oherwydd cost gwresogi eich cartref?**

| | Byth | Weithiau | Bob amser | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|
| Teimlo'n oer yn eich cartref | 27% | 63% | 10% | |
| Cael trafferth cysgu | 53% | 39% | 8% | |
| Dioddef o iechyd corfforol gwael | 64% | 29% | 6% | |
| Dioddef o iechyd meddwl gwael | 65% | 28% | 6% | |
| Bod mewn dyled o ran biliau eraill | 76% | 14% | 3% | 4% |
| Bod mewn dyled o ran biliau gwresogi | 78% | 12% | 3% | 4% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad : Yn hafal i neu'n llai na 3%

# Cartrefi oer


## A oes gennych ddiddordeb mewn cael gwybodaeth am gadw'n ddiogel ac yn iach gartref yn y gaeaf?




Gwell gennyf beidio â dweud: 4%

# Cartrefi oer

**A ydych yn gyfrifol yn ariannol am y gost o wresogi eich cartref (gan gynnwys os ydych yn rhannu'r gost â rhywun arall)?**




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%


GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Ceisiodd yr adran hon ddeall ymwybyddiaeth a barn pobl ynghylch gweithredu ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

# Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol

## A ydych yn ymwybodol o unrhyw waith sy'n mynd rhagddo yng Nghymru i ...?




Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: 1%

# Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol


## Faint o rôl, os o gwbl, ydych chi'n meddwl sydd gan y canlynol ar hyn o bryd mewn perthynas ag atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol yng Nghymru cyn iddo ddigwydd?

| | Dim rôl | Rôl fach | Rôl fawr | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| Yr heddlu | 8% | 25% | 62% | 6% |
| Lleoliadau addysgol | 5% | 28% | 57% | 9% |
| Y cyfryngau a llwyfannau cymdeithasol | 6% | 30% | 55% | 8% |
| Llywodraeth Cymru | 10% | 27% | 50% | 13% |
| Gwasanaethau iechyd | 6% | 37% | 48% | 9% |
| Awdurdodau lleol (e.e. y cyngor) | 11% | 35% | 41% | 12% |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | 8% | 33% | 41% | 17% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: Yn hafal i neu'n llai na 1%

# Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol


## Cyn heddiw, a oeddech yn gwybod bod gan Gymru ddeddf o'r enw 'Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015'?




Gwell gennyf beidio â dweud: Yn llai na 1%

# Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol

## I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r ddeddf ho?




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol


## I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno’n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Nid yw fyth yn dderbyniol bod yn dreisgar neu'n gamdriniol tuag at bartner | 1% | Less than 1% | 2% | 13% | 83% |
| Byddwn yn gwybod lle i fynd i gael cymorth pe byddwn yn profi trais neu gamdriniaeth | 6% | 19% | 21% | 41% | 12% |
| Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol yn broblem ddifrifol lle rydw i'n byw | 3% | 13% | 55% | 18% | 8% |
| Mae gwybod bod y ddeddf hon yn bodoli yn gwneud i mi deimlo'n fwy diogel yng Nghymru | 4% | 12% | 49% | 28% | 6% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: Yn hafal i neu'n llai na 4%

# Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol

**A ydych chi, neu rywun yr ydych yn ei adnabod, erioed wedi profi trais neu gamdriniaeth?**
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)





Gwell gennyf beidio â dweud: 4%

# Ysmygu ail-law

Yn yr adran hon, roeddem yn ceisio deall barn pobl ar fwg ail-law o sigaréts tybaco.

# Ysmygu ail-law


**Ystyr smygu ail-law yw pan fydd rhywun yn anadlu mwg i mewn sy'n cael ei anadlu allan gan smygwr neu o ben sigarét sydd ynghyn. Enw arall am hyn yw smygu goddefol. Cyn heddiw, a oeddech yn ymwybodol mai dyma oedd ystyr smygu ail-law (smygu goddefol)?**





Gwell gennyf beidio â dweud: Yn llai na 1%

# Ysmygu ail-law

**Pa mor niweidiol, os o gwbl, ydych chi'n meddwl yw anadlu mwg ail-law i iechyd y canlynol?**





Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: Yn llai na 1%

# Ysmygu ail-law


**Pa rai o'r problemau iechyd canlynol oeddech chi'n gwybod y gallai babanod a phlant sy'n anadlu mwg ail-law i mewn fod mewn perygl o'u cael?**




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Ysmygu ail-law

**Pa rai o'r problemau iechyd canlynol oeddech chi'n gwybod y gallai oedolion sy'n anadlu mwg ail-law i mewn fod mewn perygl o'u cael?**




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Ysmygu ail-law


**I ba raddau ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu'r camau canlynol i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r risgiau i iechyd o ganlyniad i fwg ail-law yn y cartref?**

| | Gwrthwynebu'n gryf | Tueddu i wrthwynebu | Tueddu i gefnogi | Cefnogi'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysgu plant yn yr ysgol | 1% | 2% | 15% | 80% | 2% |
| Ymgyrchoedd ar-lein (e.e. y cyfryngau cymdeithasol) | 1% | 2% | 24% | 70% | 3% |
| Hysbysebion teledu a phapur newydd | 2% | 3% | 28% | 63% | 3% |
| Taflenni gwybodaeth trwy wasanaethau yn y gymuned (e.e. ymwelwyr iechyd, meddygon teulu, ysgolion) | 2% | 4% | 28% | 63% | 3% |
| Taflenni gwybodaeth i'w rhoi i aelwydydd | 4% | 10% | 36% | 44% | 6% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: Yn llai na 1%

# Ysmygu ail-law

**Pa mor bwysig, os o gwbl, ydych chi'n meddwl yw hi fod llywodraeth yng Nghymru yn cymryd camau i gyfyngu ar faint o fwg ail-law y mae'r grwpiau canlynol yn dod i gysylltiad ag ef yn eu cartrefi eu hunain?**




Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: 2%


GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales


# Tlodi plant

Ceisiodd yr adran hon ddeall barn pobl am dlodi plant yng Nghymru. Mae tlodi plant yn golygu bod rhai plant yn tyfu i fyny mewn cartrefi heb ddigon o arian i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol (e.e. bwyd, tai, gwresogi, dillad, hylendid).

# Tlodi plant

**Faint o broblem, os o gwbl, ydych chi'n meddwl yw tlodi plant yn y canlynol?**



# Tlodi plant


**Pa mor niweidiol, os o gwbl, ydych chi'n meddwl yw byw mewn tlodi i allu plentyn i …?**

| | Ddim yn niweidiol o gwbl | Gweddol niweidiol | Niweidiol iawn |
|---|---|---|---|
| Bwyta bwyd iach | 4% | 17% | 78% |
| Byw mewn cartref cynnes, diogel | 4% | 18% | 77% |
| Meddu ar iechyd corfforol da | 4% | 26% | 69% |
| Meddu ar iechyd meddyliol da | 4% | 27% | 67% |
| Mynd i'r ysgol neu gael hyfforddiant | 8% | 39% | 50% |
| Cael mynediad at wasanaethau iechyd | 12% | 41% | 45% |
| Gwneud ffrindiau | 10% | 47% | 40% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: Yn hafal i neu'n llai na 3%

# Tlodi plant

**Pa rai o'r mathau canlynol o deuluoedd ydych chi eisoes yn gwybod y maent yn fwyaf tebgol o fyw mewn tlodi?**
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)



# Tlodi plant


**Pa mor effeithiol, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y byddai'r camau canlynol i leihau tlodi plant?**

| | Ddim yn effeithiol o gwbl | Yn weddol effeithiol | Yn effeithiol iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| Gwella fforddiadwyedd ac ansawdd tai | 3% | 19% | 75% | 2% |
| Gwella mynediad at swyddi diogel | 2% | 21% | 73% | 3% |
| Gwneud gofal plant yn fforddiadwy ac yn hygyrch | 4% | 23% | 70% | 3% |
| Help gan y llywodraeth i leihau cost nwy a thrydan | 4% | 23% | 70% | 2% |
| Gwneud prydau ysgol am ddim ar gael i bob plentyn ysgol uwchradd | 7% | 28% | 62% | 3% |
| Cefnogi rhieni i gyrchu addysg a hyfforddiant ar gyfer cyflogaeth | 4% | 32% | 61% | 3% |
| Cynyddu incwm y cartref (e.e. budd-daliadau, credydau treth) | 12% | 31% | 51% | 4% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: Yn hafal i neu'n llai na 2%

# Tlodi plant

**Pa un o'r canlynol ydych chi'n meddwl a fyddai'n fwy effeithiol o ran lleihau tlodi plant?**



# Tlodi plant

**Faint o flaenoriaeth ydych chi'n meddwl y dylai'r meysydd canlynol fod i lywodraeth yng Nghymru er mwyn lleihau tlodi plant?**

| | Blaenoriaeth isel | Blaenoriaeth ganolig | Blaenoriaeth uchel | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| Fforddiadwyedd hanfodion (e.e. bwyd, costau ynni) | 2% | 12% | 83% | 1% |
| Cyflogaeth (e.e. swyddi a hyfforddiant) | 1% | 18% | 79% | 2% |
| Tai (e.e. fforddiadwyedd) | 3% | 19% | 77% | 1% |
| Addysg (e.e. ysgolion) | 3% | 19% | 76% | 2% |
| Gwasanaethau iechyd | 3% | 21% | 74% | 2% |
| Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar (e.e. meithrinfeydd) | 4% | 28% | 65% | 3% |
| Llesiant ariannol (e.e. rheoli arian) | 4% | 30% | 62% | 2% |
| Lles (e.e. budd-daliadau) | 15% | 36% | 45% | 3% |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | 9% | 44% | 44% | 3% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: 1%

# Cyfranwyr at y Prosiect

## **Tîm y Prosiect:** Dr Catherine Sharp, Prof Karen Hughes, Dr Charlotte Welch

## Y Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi mewn Iechyd a Llesiant

**Diolchiadau am Gymorth Prosiect Ehangach:**

Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, WHO CC: Dr Sumina Azam, Dr Louisa Petchey, Prof Jo Peden, Nicola Rees

Y Tîm Cyfathrebu: Aamir Mohammed, Sarah Hibbard, Katie Allen, Rebecca Hopkins, Danny Donovan, Angharad Willis

Llywodraeth Cymru : Semele Mylona

**Datblygu'r Holiadur:**

Datblygwyd y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn arolwg mis Chwefror 2026 mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, a Prifysgol Bangor.

# Eisiau bod yn rhan o Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus?

Mae recriwtio i Iechyd y Cyhoedd Amser i Siarad yn barhaus gan ein bod am siarad ag ystod eang o unigolion ledled Cymru.

**Os ydych chi'n byw yng Nghymru ac yn 16+ oed, dyma'ch cyfle i gael eich clywed.**

**Eisiau dysgu mwy am sut i fyw bywyd iach a llewyrchus?**

**Eisiau darganfod sut i helpu eich cymuned i ffynnu?**

**Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.**



**Ymunwch â'r Grwp**

**SiaradICCymru.com**

**01663 761976**

**SiaradICCymru@wales.nhs.uk**

**Sut mae'r Panel yn gweithio?**

**Dweud eich dweud!**

**Beth yw iechyd cyhoeddus?**

**Gwneud wahaniaeth!**

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Atodiad

Demograffeg

Dulliau

# Demograffeg

| | | Poblogaeth (16+ oed) | Sampl panel cyffredinol N = 3,208 | | Chwefror 2026 sampl arolwg N = 1,656 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhyw | Gwryw | 49% | 1,392 | 43% | 770 | 46% |
| | Benyw | 51% | 1,792 | 56% | 875 | 53% |
| | Arall | - | 23 | 1% | 11 | 1% |
| Oedran (blynyddoedd) | 16 i 29 | 21% | 547 | 17% | 258 | 16% |
| | 30 i 49 | 29% | 1,042 | 32% | 456 | 28% |
| | 50 i 69 | 31% | 948 | 30% | 535 | 32% |
| | 70 neu'n hŷn | 19% | 671 | 21% | 407 | 25% |
| Cwintel amddifadedd | 1 (Mwyaf) | 19% | 479 | 15% | 247 | 15% |
| | 2 | 20% | 624 | 19% | 334 | 20% |
| | 3 | 21% | 670 | 21% | 356 | 21% |
| | 4 | 21% | 715 | 22% | 353 | 21% |
| | 5 (Lleiaf) | 20% | 720 | 22% | 366 | 22% |

Nodwch: Mae niferoedd sampl y panel yn dangos y bobl ar y panel a wahoddwyd i gymryd rhan yn arolwg mis Chwefror 2026. Cafwyd y data poblogaeth o Amcangyfrifon poblogaeth Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (gwybodaeth ategol) - y Swyddfa Ystadegau Gwladol (canol 2024; yn agor mewn ffenestr newydd); Cafwyd y data cwintil amddifadedd o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2025) (yn agor mewn ffenestr newydd). Cafodd 452 o bobl eu tynnu oddi ar y panel, o ganlyniad i ddiffyg cyfranogiad mewn tri arolwg yn olynol. Amlinellwyd y broses hon i aelodau'r panel yn y deunydd ymuno.

| | | Poblogaeth (16+ oed) | Sampl panel cyffredinol N = 3,208 | | Chwefror 2026 sampl arolwg N = 1,656 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd | Gwyn | 95% | 3,061 | 95% | 1,596 | 96% |
| | Ethnigrwydd cymysg | 1% | 54 | 2% | 23 | 1% |
| | Asaidd neu Asaidd Pryndeinig | 2% | 52 | 2% | 13 | 1% |
| | Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Cymraeg neu Du Prydeinig | 1% | 18 | 1% | 8 | Yn llai na 1% |
| | Ethnigrwydd arall | 1% | 14 | Yn llai na 1% | 13 | 1% |
| | Gwell gennyf beidio â dweud | - | 9 | Yn llai na 1% | 3 | Yn llai na 1% |
| Bwrdd Iechyd | BIP Aneurin Bevan | 19% | 591 | 18% | 277 | 17% |
| | BIP Betsi Cadwaladr | 22% | 591 | 18% | 372 | 22% |
| | BIP Caerdydd a'r Fro | 16% | 579 | 18% | 283 | 17% |
| | BIP Cwm Taf Morgannwg | 14% | 478 | 15% | 223 | 13% |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 12% | 463 | 14% | 234 | 14% |
| | BI Addysgu Powys | 4% | 134 | 4% | 68 | 4% |
| | BIP Bae Abertaw | 12% | 372 | 12% | 199 | 12% |

Nodwch: Cafwyd yr amcangyfrifon poblogaeth yn ôl ethnigrwydd (yn agor mewn ffenestr newydd) gan Wasanaeth Data'r DU. Casglwyd yr amcangyfrifon poblogaeth gan fyrddau iechyd lleol (yn agor mewn ffenest newydd) o Stats Cymru. BIP: Bwrdd Iechyd Prifysgol; BI: Bwrdd Iechyd.

# Dulliau - Recriwtio Cychwynnol

- Gosodwyd targed cychwynnol o 2,500 aelod panel er mwyn cael sampl arolwg misol o tua 1,000 ymateb; amcangyfrifwyd y byddai'r cyfraddau ymateb i arolygon bob yn ail fis yn 50% ar y mwyaf. I gyrraedd ystod o unigolion, defnyddiwyd tri dull recriwtio:
    - Ffon
    - Cyfryngau cymdeithasol
    - Wyneb yn wyneb
- Cafodd cwmni ymchwil i'r farchnad proffesiynol (DJS Research Limited) ei gaffael i gynnal y recriwtio a'rarolygon misol.
- Defnyddiwyd samplu cwota haenog wrth recriwtio dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Cwotâu wedi'u cymhwyso i:
    - Daearyddiaeth (Bwrdd Iechyd)
    - Oed
    - Rhyw
    - Cwintel Amddifadedd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)
- Roedd targedu cyfryngau cymdeithasol yn canolbwyntio ar fylchau demograffig mewn recriwtio.
- Cwblhaodd aelodau'r panel arolwg recriwtio cychwynnol a gofynnir iddynt gwblhau arolygon 15-20 munud bob yn ail mis. Cynhelir arolygon ar-lein neu dros y ffôn bob yn ail fis, yn dibynnu ar ddewis y sawl sy'n cymryd rhan.
- Mae rhagor o fanylion methodolegol ar gael ym mhrotocol y prosiect (yn agor mewn ffenest newydd).

# Dulliau

- Ar gyfer pob arolwg, gwahoddir holl aelodau'r panel i gwblhau' holiadur trwy'r dull y maent yn ei ffafrio (ffôn neu ar-lein). Rhoddir tair wythnos i aelodau'r panel gwblhau'r arolwg. O fewn yr amserlen honno, nodir bylchau yn y proffil demograffig sydd ei angen i gyflawni sampl sy'n cynrychioli oedran, rhyw, ethnigrwydd ac amddifadedd Cymru, ac anfonir nodiadau atgoffa i gwblhau'r arolwg.
- Mae'r holiaduron yn cynnwys cwestiynau sydd ag un ymateb a sawl ymateb (h.y. dewiswch bob un sy'n berthnasol). Pan fo cwestiwn yn un â sawl ymateb a'i fod yn cynnwys opsiwn un ymateb yn unig sy'n golygu mai dim ond yr opsiwn hwnnw y gellid ei ddewis, caiff hyn ei gydnabod ar y graff neu'r tabl.
- Er mwyn cynyddu cynrychiolaeth ar draws sampl yr arolwg, cynhelir tua 100 o gyfweliadau wyneb yn wyneb fesul arolwg gyda grwpiau poblogaeth a dargedir. Gwahoddir yr unigolion hyn i gwblhau'r arolwg ac fe'u gwahoddir yna i ymuno â'r panel. Felly mae cyfran yn gyfranogwyr sy'n cwblhau arolwg untro. Yn ogystal, rhoddir hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n targedu grwpiau poblogaeth penodol.

Recriwtiwyd y cyfranogwyr (N = 1,656) a gwblhaodd arolwg mis Chwefror 2026 drwy'r dulliau canlynol:

| Dull Recriwtio | n | % |
|---|---|---|
| Ar-lein | 1,148 | 69% |
| Dros y ffôn | 176 | 11% |
| Wyneb yn wyneb (panel) | 202 | 12% |
| Wyneb yn wyneb (untro) | 130 | 8% |

Cwblhaodd y cyfranogwyr (N = 1,656) arolwg mis Chwefror 2026 drwy'r dulliau canlynol:

| Dull Cyfranogiad | n | % |
|---|---|---|
| Ar-lein | 1,296 | 78% |
| Dros y ffôn | 58 | 4% |
| Wyneb yn wyneb | 302 | 18% |

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

Working together for a healthier Wales